Arolwg Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwasanaethau dydd a seibiant yng Nghymru

## Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**.
Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Holiadur Cyfleoedd Dydd a Seibiant**'.

**Rhagfyr 2024**

# Am y ddogfen yma

Dyma arolwg hawdd ei ddeall. Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen ac ateb y cwestiynau. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.




Anfonwch eich atebion yn ôl i ni erbyn **4:00pm ddydd Mercher 22 Ionawr 2025**.



Anfonwch eich atebion drwy e-bost a: neurodiversity@gov.wales.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**E-bost:** neurodiversity@gov.wales

**Ffôn:** 03000 253412

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

**Beth ydy'r arolwg yma..........4**

**Cwestiynau..........6**

**Sut rydyn ni yn defnyddio eich gwybodaeth .......... 19**

# Beth ydy'r arolwg yma

Fe wnaethon ni ofyn i **Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol adolygu**:

- gwasanaethau dydd
- a gwasanaethau **seibiant** yng Nghymru.



Mae **adolygu** yn meddwl edrych ar rywbeth a gweld ydy e wedi gwneud gwahaniaeth. Mae'n edrych ar beth sydd wedi cael ei wneud yn dda, a beth sydd yn gallu cael ei wneud yn well.



**Seibiant** ydy pan fydd rhywun sydd angen cymorth yn aros rhywle am gyfnod byr. Efallai y bydd yn rhoi gorffwys i ofalwr.




Fe wnaeth yr **adolygiad** edrych ar sut y gwnaeth y pandemig newid neu effeithio ar wasanaethau.




Fe gafodd yr **adolygiad** ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2024. Rydych chi'n gallu darllen fersiwn hawdd ei ddeall o'r adolygiad yma.




Rydyn ni wedi seilio'r cwestiynau yn yr **arolwg** yma ar beth rydyn ni wedi ei ddarganfod yn yr adolygiad a'r argymhellion sydd wedi cael eu gwneud.



Rydyn ni eisiau dysgu am brofiadau pobl o wasanaethau dydd a gwasanaethau **seibiant** ar draws Cymru.



Fe fydd hyn yn ein helpu i:

- deall beth sy'n gweithio'n dda
- beth sydd angen i ni ei wneud i ddelio ag unrhyw broblemau.

# Cwestiynau




1. **Ydy eich gwasanaethau dydd wedi eu seilio ar eich anghenion? Ydych chi'n cael eich cynnwys wrth wneud penderfyniadau?**

☐ Ydw

☐ Nac ydw

☐ Ychydig

**Oes gennych chi unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud am hyn? Dywedwch wrthyn ni yn y blwch isod:**



2. **Ydy'r gwasanaethau rydych chi'n eu defnyddio yn eich helpu chi i gadw'n iach a theimlo'n dda?**

- [ ] Ydy
- [ ] Nac ydy
- [ ] Ychydig

**Oes gennych chi unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud am hyn? Dywedwch wrthyn ni yn y blwch isod:**




3. **Ydy eich gwasanaethau'n gwybod beth rydych chi'n dda yn ei wneud ac yn eich helpu i ddysgu sgiliau?**

- [ ] Ydy
- [ ] Nac ydy
- [ ] Ychydig
- [ ] Dim yn berthnasol i mi

**Oes gennych chi unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud am hyn? Dywedwch wrthyn ni yn y blwch isod:**



4. **Ydych chi'n mwynhau mynd i'ch gweithgareddau yn ystod y dydd?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ychydig

**Oes gennych chi unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud am hyn? Dywedwch wrthyn ni yn y blwch isod:**



5. **Ydych chi'n gallu cymryd rhan yn y gweithgareddau rydych chi eisiau eu gwneud?**

- [ ] Ydw
- [ ] Nac ydw
- [ ] Ychydig

**Oes gennych chi unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud am hyn? Dywedwch wrthyn ni yn y blwch isod:**



6. **Os ydych chi eisiau, ydy eich gwasanaethau yn eich helpu chi a'ch cefnogi i gael swydd â thâl?**

- [ ] Ydy
- [ ] Nac ydy
- [ ] Ychydig

**Oes gennych chi unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud am hyn? Dywedwch wrthyn ni yn y blwch isod:**

7. Sut ydych chi'n cael eich gwasanaethau? Er enghraifft:



- mewn canolfan ddydd neu ganolfan gymunedol



- ar-lein gan ddefnyddio cyfrifiadur neu ffôn
- mewn gwahanol leoedd yn dibynnu ar y gweithgaredd.

Dywedwch wrthyn ni yn y blwch isod::




## 8. Ydych chi'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol i dalu am eich cefnogaeth?

Mae **Taliadau Uniongyrchol** yn arian mae gwasanaethau cymdeithasol yn gallu ei roi i chi yn lle gwasanaeth. Rydych chi'n gallu ei ddefnyddio i brynu'ch cefnogaeth a'ch gwasanaethau eich hun. Mae hyn yn rhoi mwy o reolaeth i chi.

☐ Ydw

☐ Nac ydw

**Oes gennych chi unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud am Daliadau Uniongyrchol? Dywedwch wrthyn ni yn y blwch isod:**




9. **Ydych chi'n cael cefnogaeth i ddefnyddio Taliadau uniongyrchol?**

- [ ] Ydw
- [ ] Nac ydw
- [ ] Ychydig

**Oes gennych chi unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud am hyn? Dywedwch wrthyn ni yn y blwch isod:**



10. **Sut mae eich gwasanaethau wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf? Dywedwch wrthyn ni yn y blwch isod:**





**11. Wnaeth pandemig y coronafeirws newid sut rydych chi'n cael eich gwasanaethau?**

☐ Do

☐ Naddo

☐ Ychydig

**Oes gennych chi unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud am hyn? Dywedwch wrthyn ni yn y blwch isod:**



12. **Os ydy eich gwasanaethau chi wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ydyn nhw'n well?**

- [ ] Ydy
- [ ] Nac ydy
- [ ] Ychydig

**Oes gennych chi unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud am hyn? Dywedwch wrthyn ni yn y blwch isod:**



**13. Oes unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud wrthyn ni?**

# Sut rydyn ni yn defnyddio eich gwybodaeth




Rydyn ni yn defnyddio’ch gwybodaeth drwy ddilyn cyfraith o’r new **Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y Deyrnas Unedig (GDPR).**



Fe fydd ein staff yn gallu gweld eich atebion. Weithiau fe fyddwn ni yn gofyn i sefydliadau eraill ein helpu i ddeall atebion pobl. Efallai y byddan nhw’n gweld eich gwybodaeth hefyd.




Rydyn ni fel arfer yn cyhoeddi adroddiad sy’n dangos y mathau o bethau mae pobl wedi ei ddweud.




Weithiau mae hyn yn meddwl bod manylion personol pobl yn cael eu cynnwys. Dywedwch wrthyn ni os nad ydych chi eisiau i’ch gwybodaeth bersonol gael ei chynnwys




Os ydych chi yn ein hadroddiad, mae’r wybodaeth yn gallu bod ar gael am amser hir.




Ond dim ond am 3 blynedd mae gwybodaeth sydd ddim yn cael ei chyhoeddi yn cael ei chadw.




Mae'r gyfraith diogelu data yn rhoi'r hawl i chi:

- Gwybod pa wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi a sut rydych chi'n gallu ei gweld.
- Gwneud i ni newid unrhyw gamgymeriadau yn y wybodaeth amdanoch chi.
- Gofyn i ni beidio â defnyddio'r wybodaeth mewn rhai achosion.
- Gofyn i ni ddileu'r wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi mewn rhai achosion.
- Symud y wybodaeth amdanoch chi i rywle arall mewn rhai achosion.
- Cwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Os ydych chi eisiau gwybod mwy am sut mae eich gwybodaeth yn cael ei chadw a'i defnyddio, cysylltwch â ni yn:



**Post:** Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ



**E-bost:** Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Rydych chi hefyd yn gallu cysylltu â **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**:



**Post:** Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF



**Ffôn:** 01625 545745 neu 0303 123 1113




**Gwefan:** https://ico.org.uk